Ennill y darian eto

Ar ddydd Gwener 25 Ebrill roedd cystadleuaeth hoci ym Mhenglais. Yr oedd Penrhyncoch wedi mynd â thîm i lawr yn cynnwys Sara Beechey, Nia Morgan, Louise Foley, Charlotte Read, Nicola Harding, Emma Egan, Ellen Davies a Lynne Hughes. Roedd y gêm gynta yn erbyn Comins Coch, ysgol mwy o faint na ni. Wedi'r chwiban i ddweud bod y gêm gynta wedi gorffen roedd y sgôr yn 0-0. Yn yr ail gêm roedd yn rhaid i ni gael mwy nag un gôl i fynd trwyddo i'r gêm ddiwethaf. Sgoriodd Louise Foley un gôl a Sara tair. Roedd y gêm wedi gorffen 4-0. Roedd yn rhaid i ni ennill y gêm nesaf er mwyn cadw'r darian yn ysgol Penrhyncoch. Ond gorffennodd

y gêm yn 0-0. Penderfynwyd mai'r tîm nesaf i sgorio fyddai'n ennill. Cymerodd Charlotte gornel, pasiodd y bêl i Nia a sgoriodd hi. Roeddwn wedi ennill.

Louise Foley